



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru: nodyn gan Valerie Creusailor (Awst 2024)

Diweddariad gan aelod newydd o'r bwrdd Valerie Creusailor.

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 Awst 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 16 Awst 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-valerie-creusailor-awst-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# Valerie Creusailor yn ymuno â Bwrdd Diwidiant Bwyd a Diod Cymru

Valerie Creusailor yw sylfaenydd Goch & Co Ltd.

Cwmni arobryn sy'n cael ei lywio gan angerdd, arloesedd, ac ymrwymiad cadarn i ragoriaeth. Mae Goch & Co Ltd yn arbenigo mewn cynfennau, sesnin, a byrbrydau figan, gyda chenhadaeth i greu cynhyrchion sy'n ennyn emosiynau a chysylltiadau dwfn.

Dywed Valerie:

“ Mae Goch & Co Ltd yn fwy na chwmni yn unig; mae'n deulu sy'n cael ei uno gan weledigaeth a rennir. Mae'r tîm, sy'n cynnwys talentau a safbwyntiau amrywiol, yn gwthio ffiniau yn gyson ac yn archwilio gorwelion newydd. ”

Mae Valerie yn pwysleisio pwysigrwydd gwrando ar gwsmeriaid a chreu profiadau sy'n rhagori ar eu disgwyliadau.

“ Mae Goch & Co Ltd, ochr yn ochr â'i chwaer gwmni VUKA, yn blaenoriaethu ansawdd ac arferion cynhyrchu moesegol. Mae VUKA yn arbenigo mewn grawnfwydydd artisan a byrbrydau figan, gan bwysleisio iechyd a bwydydd sy'n defnyddio planhigion. Mae ymrwymiad Goch & Co i ddilysrwydd ac arloesi wedi golygu ei fod yn hollbwysig i'r rhai sy'n chwilio am ychwanegiadau coginio unigryw a blasus.

“ Rydym wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y byd, boed hynny drwy ein cynnyrch neu drwy ein mentrau dyngarol. ”

Mae Valerie wedi chwarae rolau allweddol mewn amrywiol sefydliadau, gan

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-valerie-creusailor-awst-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

gydweithio â thimau ymroddedig i gyflawni canlyniadau effeithiol i brosiectau, adolygiadau perfformiad, a gwasanaethau ymgynghori. Mae ei phrofiad yn rhychwantu'r sector preifat, llywodraeth leol, yr heddlu a'r GIG. Mae ymrwymiad Valerie i lywodraethu corfforaethol effeithiol wedi arwain yn gyson at gyflawni amcanion strategol sy'n canolbwyntio ar berfformiad.

“ Rwy'n falch iawn o ymuno â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru,” meddai Valerie.

“ Rwy'n edrych ymlaen at gyfrannu at y twf a'r arloesedd parhaus yn sector bwyd a diod Cymru. ”

Mae gan Valerie hanes o gymryd rhan mewn arloesi, cynaliadwyedd a gwella amgylcheddau rheoli yn barhaus. Mae hi wedi

- arwain adolygiadau strwythur gwasanaeth yn llwyddiannus
- mireinio systemau adrodd ar gyfer rheoli
- gwella fframweithiau rheoli risg.

Mae ei chyfraniadau wedi dylanwadu'n sylweddol ar gynllunio gweithredol a strategol ar gyfer ymddiriedolaethau'r sector cyhoeddus a sefydliadau'r comisiwn ansawdd, gan arwain at arbedion sylweddol ac enillion cadarn ar fuddsoddiadau.

Gydag arbenigedd mewn dylunio fframweithiau sicrwydd, adolygiadau effeithlonrwydd, a chynlluniau gwella costau, mae Valerie wedi gwella gwaith rheoli a llywodraethu contractau ar gyfer busnesau bwyd a diod. Mae ei gwaith o ran systemau gweithredol wedi cynyddu effeithlonrwydd gweithredol, gan lywio cymhlethdodau datblygu busnes strategol.

Mae Valerie yn eiriolwr angerddol dros fentora a chyfrannu at fentrau amrywiaeth a chydarddoldeb, gan adlewyrchu diwylliant bwyd a diod cyfannol a chynhwysol ledled Cymru. Mae ei dealltwriaeth ddofn o fframweithiau sector

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-valerie-creusailor-awst-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

cyhoeddus a rheoleiddio Cymru yn ei galluogi i ddarparu cyfraniadau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Bwrdd.

Mae Valerie wedi ymrwmo i gynnal gwerthoedd Cymreictod, ymroddiad i gyfle cyfartal, ac arweinyddiaeth gydweithredol. Mae'r elfennau hyn yn hanfodol i gynyddu effaith genedlaethol a byd-eang busnesau bwyd a diod yng Nghymru.

“Rwy'n gyffrous am y posibilrwydd o lunio prosiectau effeithiol, meithrin cysylltiadau, a sbarduno newid cadarnhaol yn sector bwyd a diod Cymru,” ychwanegodd Valerie. "Rwy'n llwyr groesawu'r cyfrifoldeb o gyflawni canlyniadau sy'n cyfrannu at ragoriaeth.” ”

Mae sefydlu Goch & Co Ltd wedi'i wreiddio'n ddwfn yng nghysylltiad personol Valerie ag Affrica a'i thraddodiadau coginio amrywiol. Wrth dyfu i fyny wedi'i hamgylchynu gan gyfoeth anhygoel blasau Affricanaidd, cafodd ei hysbrydoli i ddod â'r blasau unigryw hyn i gynulleidfa ehangach. Mae hynodrwydd cynhyrchion Goch & Co yn deillio o flasau a sbeisys wedi'u curadu'n ofalus, pob un yn talu teyrnged i dapestri bywiog treftadaeth goginio Affricanaidd.

Fel unrhyw fusnes, daeth Goch & Co ar draws ei chyfran deg o heriau, yn enwedig wrth gychwyn a thyfu. Roedd cyflwyno cynfennau a ysbrydolwyd gan Affrica i farchnad amrywiol yng Nghymru yn peri rhwystr nodedig. Goresgynnodd Valerie a'i thîm hyn drwy ganolbwyntio ar farchnata strategol, addysg, a chreu profiad ymgolli i gwsmeriaid, gan eu helpu i groesawu a gwerthfawrogi dilysrwydd y cynhyrchion.

Mae penodiad Valerie i'r fwrdd yn cyd-fynd yn berffaith â'i hangerdd a'i thaith broffesiynol. Mae ei phrofiad helaeth a'i hymroddiad yn ei gwneud hi'n ased gwerthfawr i'r Bwrdd. Mae Valerie wedi ymrwmo i ddefnyddio ei sgiliau cynhwysfawr i

- feithrin twf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Enwch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-valerie-creusailor-awst-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

- sbarduno arloesedd
- a gwella perfformiad yn y maes bwyd a diod yng Nghymru a thu hwnt.

Mae gweledigaeth Valerie yn cynnwys meithrin diwylliant o arloesi, cynaliadwyedd a chynhwysiant. Drwy gydweithio ag aelodau eraill o'r Bwrdd, ei nod yw creu amgylchedd cefnogol lle gall busnesau ffynnu. Bydd yn canolbwyntio ar fentrau strategol sy'n hyrwyddo rhinweddau unigryw bwyd a diod Cymru, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae Valerie yn credu yng ngrym arweinyddiaeth gydweithredol ac mae'n gyffrous am y cyfle i weithio gydag aelodau eraill o'r fwrdd. Drwy gyfuno eu harbenigedd a'u hadnoddau, mae'n gobeithio ysgogi datblygiadau sylweddol yn y diwydiant. Bydd ei dull gweithredu yn gynhwysol, gan sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu hystyried mewn prosesau penderfynu.

Yng nghyfarfod diweddaraf y bwrdd yng Ngogledd Cymru ddiwedd mis Gorffennaf, cynhaliodd y bwrdd ymarfer mapio o'u profiad mewn gwahanol ddisgyblaethau. E.e. gweithredol, ariannol, technegol.

Roedd yr ymarfer hwn hefyd yn ymestyn i ddadansoddiad o'r gwahanol is-sectorau yn y sector bwyd a diod a oedd hefyd yn dangos ehangder y sylfaen profiad o fewn y bwrdd hwn ar ei newydd wedd. Roedd y trafodaethau hefyd yn canolbwyntio ar y llwybrau cyfathrebu i mewn ac allan o'r bwrdd.

Un o'r elfennau allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y bwrdd oedd yr angen i ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr bwyd mewn modd strwythuredig er mwyn nodi rhwystrau a chyfleoedd i'r sector. O ganlyniad mae'r bwrdd yn chwilio am 50 o gwmnïau a fyddai'n fodlon llenwi holiadur a fydd yn meincnodi ffactorau allweddol sy'n effeithio ar y diwydiant ac yn monitro gwaith gwerthuso'r diwydiant o ran iechyd y sector dros gyfnod o amser.

Bydd hyn yn galluogi'r bwrdd i ddeall materion cyfredol sy'n wynebu'r diwydiant

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-valerie-creusailor-awst-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

yn well ac yn cyflwyno data ystyrlon i Lywodraeth Cymru y gellir ei ailadrodd ond sy'n ddienw ac a fydd yn hwyluso trafodaethau ar lefel bwrdd. Yn olaf, bydd aelodau'r bwrdd yn mynychu Cynhadledd Bwyd a Diod Cymru Blas Cymru/Taste Wales yn Llandudno ar 24 Hydref a byddent yn falch iawn o gwrdd â phartneriaid o'r sector bwyd a diod yn y digwyddiad.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru-nodyn-gan-valerie-creusailor-awst-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).